Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

583/51

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF CY3
## DEFNYDDIO'R IAITH A BARDDONIAETH
*(Arholiad Ysgrifenedig)*

A.M. DYDD IAU, 10 Ionawr 2008

(2 awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **ddau** gwestiwn - Adran A ac Adran B.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Mae angen i chi ysgrifennu Cymraeg da a chywir a chyflwyno'ch atebion yn drefnus.

Awgrymir eich bod yn treulio ¾ awr ar Adran A ac 1¼ awr ar Adran B.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich traethawd yn Adran B.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

## ADRAN A

### Defnyddio Iaith

**1.** Atebwch **bob** rhan o'r cwestiwn hwn. Cewch eich gwobrwyo am greu brawddegau sy'n ieithyddol gywir.

*(a)* Defnyddiwch y canlynol mewn brawddegau gwreiddiol, un ymhob brawddeg, i ddangos yn eglur eu hystyron a'u defnydd: [5 × 2 = 10]

gwelir
cerddwn i
gennych chi
y clywais
gwneud eu gorau glas

*(b)* Mae **dau** wall ymhob un o'r brawddegau isod. **Lluniwch dair colofn**: yn y gyntaf nodwch y camgymeriad, yn yr ail cywirwch ef, ac yn y drydedd nodwch eich rheswm dros gywiro. [10 × 2 = 20]

(i) Cafodd y môr ei llygru gydag olew.

(ii) Rydw i'n credu bod mae llais y ferch yn ryfedd iawn.

(iii) Pan yr aeth i'r dref mae hi wedi gweld anrhegion yn y siopau.

(iv) Roedd hi'n siŵr fod ddim y ferch wedi gwneud y stori i fyny.

(v) Dywedir y bardd mai cerddi ef yw'r gorau.

*(c)* (i) Cywirwch yr ymadroddion isod. [5]

(ii) Defnyddiwch y ffurfiau cywir mewn brawddegau, un ymhob brawddeg, i ddangos yn eglur eu hystyron a'u defnydd. [5]

yn credu ti
ganddo fi
os buasai
gwybod y person
wedi mynd i ffwrdd o'r pwynt

## ADRAN B

### Barddoniaeth

**2.** Ysgrifennwch draethawd ar **un** o'r canlynol.

*Wrth ateb, cofiwch*

- *ddefnyddio dyfyniadau a thermau beirniadaeth lenyddol;*
- *cymharu gweithiau'r beirdd lle bo'n briodol.*

**Naill ai**

*(a)* Trafodwch **dair cerdd** gan **dri bardd gwahanol** sy'n cyfeirio at lecyn neu le arbennig. Trafodwch pa mor **debyg** ydy myfyrdodau'r bardd a thrafodwch **arddull** y cerddi. [80]

**Neu**

*(b)* Trafodwch y **themâu** yn y cerddi a astudiwyd gennych o waith T. H. Parry-Williams a Myrddin ap Dafydd. Ydy gwaith y ddau fardd mewn **gwrthgyferbyniad llwyr** o ran **cynnwys**, **mesurau** ac **arddull**? [80]